# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## EIN(2) 04-06(p.1)

### Dyddiad: 22 Mehefin 2006
### Lleoliad: Canolfan Ymwelwyr Gogledd Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rhodfa’r Tywysog, Bae Colwyn
### Teitl: Fforwm Economaidd Gogledd Cymru

#### Gosod y darlun

Erbyn 2020 twristiaeth fydd diwydiant mwya'r byd gyda chroesawu 1.6 biliwn o ymwelwyr rhyngwladol o'i gymharu â 0.6 biliwn yn 1996. Bydd ymwelwyr i'r Deyrnas Gyfunol wedi dyblu o 26 miliwn i 53 miliwn, ond hynny wedi llithro i lawr i seithfed safle ar restr y byd o ymwelwyr rhyngwladol.

Ond 1% yn unig fydd gan Ogledd Cymru o'r busnes hwnnw gyda 250,000 o ymwelwyr o dramor a Chymru'n cael 4% ac 1 miliwn yn ymweld.

Mae'r incwm twristiaeth bresennol i Ogledd Cymru'n £1762m yf, ac 8 miliwn o ymwelwyr yn dod yma ar wyliau, 14 miliwn yn dod am y dydd ac yn golygu bron 40,000 o swyddi. Mae twristiaeth yn cynhyrchu 3.7% o incwm ychwanegol yng Nghymru. I roi syniad o'i bwysigrwydd rhanbarthol mae Gogledd Cymru'n derbyn 33% o gyfrif twristiaeth Cymru a 5% o dwristiaeth y DG, a'n poblogaeth yn ddim ond 1.25% drigolion y DG.

Mae inni bwysigrwydd yn sbectrwm twristiaeth y DG, ond ddim gymaint o safbwynt twristiaeth fyd-eang, a hynny pan fo cryn gynnydd mewn twristiaeth ryngwladol, cynnydd mewn hediadau rhad o faes awyr John Lennon a Manceinion a chystadleuaeth rymusach yn y farchnad ddomestig. Ydy ni felly'n gwneud y gorau o'n cyfleoedd presennol ac arfaethedig yng ngoleuni'r polisïau allweddol isod?

- Undeb Ewropeaidd: Twristiaeth a Strategaeth Adnewyddol Lisbon
- Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cyflawni'n Potensial 2
- Fforwm Economaidd Gogledd Cymru: Gwella Cynnig Gogledd Cymru
- Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru: Cynllunio Twristiaeth Yfory Heddiw

#### Busnesau mewn Twristiaeth

Mae ychydig o dan 4000 o fusnesau i ddibenion twristiaeth wedi eu cofrestru yng nghronfa ddata perthynol 6 awdurdod lleol Gogledd Cymru. Mae nifer helaeth o fusnesau'n ymwneud â thwristiaeth. Mae'r rhain yn amrywio o westai, llefydd gwely a brecwast, lletyau, trefniadau hunan arlwyaeth, carafannau, a gwersylloedd, parciau gwyliau, atyniadau a gweithgareddau. Ar y cyfan mae'r proffil rhanbarthol yn ffafrio'n bennaf fusnesau bychain 'micro' a hynny oddeutu 80% o'r cyfanrif.

Derbyniant gefnogaeth busnes ledled y DG a thros Gymru gyfan, gan gyrff rhanbarthol, isranbarthol a sefydliadau lleol. Mae hefyd gyngor i'w gael gan sefydliadau a chwmnïau proffesiynol o'r sector preifat. Ydy'r ffynonellau cefnogi busnes yn gymwys i'r gofynion - o ran hwylustod mynediad, ansawdd ac arbenigedd, o safbwynt datblygiad Cynnyrch, Datblygu Hyrwyddiad a Datblygiad Personél fel a ganlyn?

## Cefnogi Datblygiad Cynnyrch

### Isadeiledd

Ydy'r prosiectau isadeiledd a flaenorir gan lywodraeth genedlaethol, ranbarthol a lleol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r sector dwristiaeth?

Ydy'r strategaeth dwristiaeth genedlaethol Cyflawni'n Potensial , a strategaeth twristiaeth ranbarthol - Cynllunio Twristiaeth Yfory Heddiw, yn adlewyrchu cydbwysedd dyheadau cyfredol y sector dwristiaeth a'n cyfleoedd i'r dyfodol?

Ydy'r sector gyhoeddus yn rhoi'r lefel o gefnogaeth y mae ymwelwyr yn ei ddeisyfu – rheolaeth ansawdd integredig, arwyddion i ymwelwyr, cyfleusterau cyhoeddus?

### Aradeiledd

Mae polisïau niferus a dogfennau ymchwil ar gael i'r cyhoedd. Ond ydy'r rhain o fewn cyrraedd hwylus ac yn rhoi arweiniad clir i fusnesau ar benderfynu eu dyfodol?

Ydy'r busnesau'n cael cefnogaeth cynlluniau polisi priodol i sicrhau datblygiad twristiaeth gynaliadwy? Ydy'r broses ceisio caniatâd cynllunio'n amserol gywir i gael y prosiectau datblygu twristiaeth cywir? Ydy'r rheolaeth gynllunio o fewn tiriogaeth Parc Cenedlaethol Eryri ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn adlewyrchu’r gofynion treftadaeth, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd?

Ydy'r cyngor priodol ar gael i hyrwyddo datblygu cynlluniau busnes cyfredol a newydd?

Oes cynlluniau cefnogaeth ariannol arbenigol a chyffredinol i sicrhau buddsoddiad twristiaeth gystadleuol gynaliadwy all gystadlu yn y farchnad fyd-eang?

### Srwythur Feddal

Oes llwybrau clir i ennill cefnogaeth fusnes arbenigol neu gyffredinol yn seiliedig ar egwyddorion mentrau, arloesed a rhwydweithio ar gyfer busnesau cyfredol a newydd?

Ydy'r cynlluniau sicrhau ansawdd i gwsmeriaid e.e. cynlluniau graddio lletyaeth, atyniadau, a gwyliau gweithgareddau diddordebau a gweithgarwch yn cefnogi busnesau? Ydy nhw'n cael eu hyrwyddo'n briodol ac yn diwallu anghenion cwsmeriaid?

Ydy'r cynlluniau i gydymffurfio â safonau statudol e.e. rheoliadau bwyd a thân y sector cyhoeddus yn cefnogi busnesau ac yn cwrdd ag anghenion cwsmeriaid?

Ydy busnesau'n gallu dylanwadu ar ddatblygu polisïau'r llywodraeth e.e. gwell rheolaeth, treth gwelyau, trefn bensiynau newydd?

Oes cefnogaeth i geisio lleihau problemau tymhorol, wrth wynebu cystadleuaeth gynyddol cystadlaethau allanol e.e. hediadau rhatach i gyrchfannau gwyliau tramor?

## Cefnogaeth i Hyrwyddo Datblygiadau

### Rhyngwladol

Yn hanesyddol mae Gogledd Cymru wedi dibynnu ar Awdurdod Twristiaeth Prydain/Dewch i Brydain i greu busnes ymweliadau rhyngwladol. Ydy Gogledd Cymru'n cael rhan deg o'r berthynas ac o'r busnes a gynhyrchir?

Cafwyd peth busnes rhyngwladol yn ddiweddar drwy ymdrech Bwrdd Croeso Cymru /Dewch i Gymru. Oes angen ymgyrchu'n galetach gydag ymgyrchoedd rhyngwladol Cymru i ddenu ymwelwyr drwy feysydd awyr John Lennon, Lerpwl, ames awyr Birmingham a Maenceinion?

### Cenedlaethol - Brand Cymru

Ein prif lwybrau i ddenu ymwelwyr marchnad y DG fu drwy ymgyrchoedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol Dewch i Gymru. Bu pwyslais y rhain ar gyrchfannau gwyliau, cynnyrch Cymreig (e.e. gweithgareddau, cerdded neu golff) neu drwy themâu arbennig. Ai dyma'r gymysgedd atyniadol ddigonol a chywir i gefnogi busnesau byd twristiaeth ?

Bu Arian Amcan 1 yr Undeb Ewropeaidd yn adnodd ychwanegol yn y blynyddoedd diwethaf a llwyddwyd i ychwanegu at niferoedd yr ymgyrchoedd. Ond a achosodd hyn elfen o ddyblygu neu a hyrwyddwyd gweithgareddau marchnata integredig i gefnogi busnesau twristiaeth?

Sut gall Cronfa Cydgyfeiriad yr Undeb Ewropeaidd gefnogi busnesau twristiaeth hyd at 2013, a gadael gwaddol o weithgarwch marchnata cynaliadwy?

Mae Canolfannau Croeso'n rhan bwysig o fusnes twristiaeth a chefnogaeth i ymwelwyr, ond mae ymholiadau wedi gostwng a chostau wedi cynyddu. Ydy'r canolfannau'n dal i fod yn rhan hanfodol o'r hyn a gynigir i ymwelwyr?

Daeth y Rhyngrwyd a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'n gydran allweddol o farchnata twristiaeth e.e. mae Dewch i Brydain yn gwario'i holl arian marchnata drwy'r cyfrwng hwn. I'r gwrthwyneb mae llawer o fusnesau a sefydliadau'n dal i ddibynnu’n helaeth ar hen ddulliau o gyfathrebu felly faint o gefnogaeth sydd ei angen i'w argyhoeddi i fabwysiadu'r dulliau marchnata diweddaraf?

### Cefnogaeth i ddatblygu Personél

Os na chawn y bobl iawn yn y lle iawn i wasanaethu ymwelwyr yna methiant fydd ein holl ymdrechion i ddatblygu cynnyrch a hyrwyddo'r diwydiant.

Gyda phedwar Cyngor Sgiliau Sector yn bodoli a nifer o sefydliadau'n hyrwyddo datblygiad personél o fewn y sector - oes digon o gysylltiad rhyngddynt i gefnogi busnesau twristiaeth?

Ydy ni'n cyflwyno'r genadwri gywir ac yn rhoi pwyslais digonol ar hyrwyddo gyrfaoedd, er mwyn recriwtio pobl - ac yn enwedig yr ifanc? Ydy'r llwybrau cywir gennym ar gyfer datblygu gyrfa a chadw staff? Oes digon o gyfleoedd i adnewyddu sgiliau staff? Ydy'n lefelau o wobrwyo ymdrechion staff yn ddigon cystadleuol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig?

## Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru - 5 Mehefin 2006